OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 1749 (Cy.181)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *4 Gorffennaf 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *5 Gorffennaf 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977, a pharagraff 2A o Atodlen 12 iddi(**1**).

**Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 5 Gorffennaf 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y Rheoliadau Optegol" yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(**2**).

**Diwygiadau i'r Rheoliadau Optegol**

**2.** Yn rheoliad 19 (gwerth adbrynu taleb ar gyfer ailosod neu drwsio)—

(a) ym mharagraff (1)(b), yn lle "£48.00" rhodder "£49.20"; a

(b) ym mharagraff (3), yn lle "£12.40" rhodder "£12.70".

**Diwygiadau i'r Atodlenni i'r Rheoliadau Optegol**

**3.**—(1) Yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau Optegol (codau llythrennau talebau a gwerth taleb ar yr wyneb — cyflenwi ac ailosod) yng ngholofn (3) o'r tabl (gwerth tabl ar yr wyneb), am bob swm a bennir yng ngholofn (1) o'r tabl isod rhodder y swm a bennir ar ei gyfer yng ngholofn (2) o'r tabl isod yn ei le.

(**1**) 1977 p.49.
(**2**) O.S. 1997/818, fel y'i ddiwygiwyd.

| *(1)* *Swm blaenorol* | *(2)* *Swm newydd* |
|---|---|
| £32.90 | £33.70 |
| £50.00 | £51.20 |
| £73.10 | £74.90 |
| £165.00 | £169.10 |
| £56.80 | £58.20 |
| £72.20 | £74.00 |
| £93.60 | £95.90 |
| £181.40 | £185.90 |
| £169.00 | £173.20 |
| £48.00 | £49.20 |

(2) Yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau Optegol (prismau, arlliwiau, lensys ffotocromaidd, sbectolau bychain ac arbennig a theclynnau cymhleth)—

(a) ym mharagraff (1)(1)(a), yn lle "£10.70" rhodder "£11.00".

(b) ym mharagraff (1)(1)(b), yn lle "£12.80" rhodder "£13.10";

(c) ym mharagraff 1(1)(c), yn lle "£3.60" rhodder "£3.70".

(ch) ym mharagraff 1(1)(d), yn lle "£4.10" rhodder "£4.20";

(d) ym mharagraff 1(1)(e), yn lle "£54.10", "£48.00" a "£26.00" rhodder "£55.50", "£49.20" a "£26.60" yn eu trefn;

(dd) ym mharagraff (1)(1)(g), yn lle "£54.10" rhodder "£55.50";

(e) ym mharagraff (2)(a), yn lle "£12.40" rhodder "£12.70"; ac

(f) ym mharagraff (2)(b), yn lle "£31.30" rhodder "£32.10".

(3) Yn lle Atodlen 3 i'r Rheoliadau Optegol (gwerth talebau — trwsio), rhodder yr Atodlen 3 newydd a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

**Darpariaeth Drosiannol**

**4.** Dim ond o ran taleb a gafodd ei derbyn neu ei defnyddio yn unol â rheoliad 12 neu reoliad 17 o'r Rheoliadau Optegol ar 5 Gorffennaf 2006 neu ar ôl hynny y bydd y symiau newydd a fewnosodir gan reoliadau 2 a 3 yn gymwys.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*
4 Gorffennaf 2006 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

## ATODLEN 3

Rheoliad (3)(3)

Atodlen 3 i'r Rheoliadau Optegol fel y'i hamnewidir gan y Rheoliadau hyn

## "SCHEDULE 3

Regulation 19(2) and (3)

VOUCHER VALUES REPAIR

| (1) Nature of Repair | (2) Letter of Codes-Values | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A £ | B £ | C £ | D £ | E £ | F £ | G £ | H £ | I £ |
| Repair or replacement of one lens | 10.50 | 19.25 | 31.10 | 78.20 | 22.75 | 30.65 | 41.60 | 86.60 | 80.25 |
| Repair or replacement of two lenses | 21.00 | 38.50 | 62.20 | 156.40 | 45.50 | 61.30 | 83.20 | 173.20 | 160.50 |
| Repair or replacement of: | | | | | | | | | |
| The front of a frame | 10.75 | 10.75 | 10.75 | 10.75 | 10.75 | 10.75 | 10.75 | 10.75 | 10.75 |
| A side of a frame | 6.40 | 6.40 | 6.40 | 6.40 | 6.40 | 6.40 | 6.40 | 6.40 | 6.40 |
| The whole frame | 12.70 | 12.70 | 12.70 | 12.70 | 12.70 | 12.70 | 12.70 | 12.70 | 12.70" |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 ("y Rheoliadau Optegol") sy'n darparu ar gyfer gwneud taliadau drwy gyfrwng system dalebau o ran costau a dynnir gan gategorïau penodol o bersonau mewn cysylltiad â chyflenwi, ailosod a thrwsio teclynnau optegol.

Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 19 i gynyddu gwerth adbrynu taleb a ddyroddir tuag at gost ailosod un lens gyffwrdd ac i gynyddu uchafswm y cyfraniad drwy daleb tuag at gost trwsio ffrâm.

Mae rheoliad 3 a'r Atodlen yn diwygio'r Atodlenni i'r Rheoliadau Optegol i gynyddu gwerth talebau a ddyroddir tuag at gostau cyflenwi ac ailosod sbectolau a lensys cyffwrdd, i gynyddu gwerthoedd ychwanegol y talebau ar gyfer prismau, arlliwiau, lensys ffotocromaidd a chategorïau arbennig o declynnau ac i gynyddu gwerth y talebau a ddyroddir at drwsio ac ailosod teclynnau optegol. Tua 2.5% yw graddfa'r cynnydd yn y talebau yn y Rheoliadau hyn.

Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gosod cost ar fusnes.